CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **13.04.18**

CROESO'N ÔL -*WELCOME BACK.*

Roedd yn braf iawn cael croesawu pawb yn ôl wedi gwyliau'r Pasg ddydd Llun. Mawr obeithir fod pawb wedi cael gwyliau hapus a difyr, ac edrychir ymlaen yn awr at dymor prysur arall hyd at wyliau'r haf.

It was lovely to welcome everyone back following the Easter holiday on Monday. It is hoped that everyone had a happy and restful holiday, and we shall look forward to another busy term up to the summer holiday.

PROBLEM DECHNEGOL – *TECHNICAL PROBLEM.*

Ymddiheurwn am y ffaith bod problem dechnegol wedi bod ar app yr ysgol oherwydd i'r wybodaeth a lwythwyd arno ddiwedd y tymor diwethaf, ddiflannu oddi arno. Dyna paham i'r wybodaeth ail ymddangos ar y wefan ddoe.

We apologise for the fact that a technical problem has occurred on the school's app, as the information uploaded on it at the end of last term, has disappeared. This is the reason why the information re-appeared on the website yesterday.

TWRNAMENT RYGBI TAG CAMPAU'R DDRAIG – *DRAGON SPORTS TAG RUGBY TOURNMENT.*

Bu dau dîm o'r ysgol yn cymryd rhan mewn twrnament rygbi tag Campau'r Ddraig pnawn ddoe, a gwneud eu rhan yn arbennig o dda. Llongyfarchiadau calonnog i'r bechgyn ar eu llwyddiant. Bu i aelodau'r ddau dîm fwynhau y profiad yn fawr iawn.

Two teams from school participated in a Dragon Sports tag rugby tournament yesterday afternoon and did so exceptionally well. Many congratulations to the boys on their achievement. The members of both teams very much enjoyed the experience.

WYTHNOS EWROPEAIDD – *EUROPEAN WEEK.*

Fe'ch hatgoffir y cynhelir Wythnos Ewropeaidd yn yr ysgol yr wythnos nesaf – hynny yw o ddydd Llun, Ebrill 16eg i ddydd Gwener, Ebrill 20fed. Fel y nodwyd yn y Cylchlythyr cyn y gwyliau, bydd y dosbarthiadau yn astudio gwahanol wledydd Ewropeaidd a chaiff y disgyblion ddod i'r ysgol wedi'u gwisgo mewn gwisg sy'n cynrychioli'r wlad honno **ddydd Gwener, Ebrill 20fed.**

*You are reminded that we will be celebrating European Week in school next week – that is from Monday, April 16th. to Friday, April 20th. As was noted in the last Newsletter, the classes will be studying different European countries and the pupils are allowed to come to school dressed as representatives from the various countries on **Friday, April 20th.***

Bydd y gwahanol ddosbarthiadau yn astudio'r gwledydd canlynol:

The countries for the different classes are as follows:

Uned y Blynyddoedd Cynnar – *Early Years Unit –* Ffrainc – *France.*

Dosbarth C. Morris/I Davies *Class -* Yr Eidal – *Italy.*

Dosbarth L.L.Davies'*Class –* Sbaen – *Spain.*

Dosbarth E. Roberts'*Class –* Gwlad yr Iâ – *Iceland.*

Dosbarth G. Gatrell's *Class –* Yr Iseldiroedd – *Holland.*

Dosbarth L. Fernandes'*Class –* Portiwgal – *Portugal.*

Dosbarth G. Jones' *Class –* Yr Almaen – *Germany.*

Dosbarth S. Coulman's *Class –* Yr Alban – *Scotland.*

Dosbarth G.Williams/E. Price's *Class –* Groeg – *Greece.*

Dosbarth L.Hogg's *Class* – Sweden.

Dosbarth Rh. Jones' *Class* – Gwlad Belg – *Belgium.*

NEGES ODDI WRTH THEATR CLWYD – *MESSAGE FROM THEATR CLWYD.*

Fe'ch hysbysir bod Gweithdai Drama cyfrwng Cymraeg ar gyfer Blynyddoedd 3,4,5 a 6 yn cael eu cynnal yn Theatr Clwyd bob nos Fawrth o 5 – 6.30 p.m. yn ystod y tymor hwn. I archebu lle, mae gofyn i chi ffonio'r Theatr ar 01352 701521.

You are informed that Welsh medium Drama Workshops take place for Years 3,4,5 and 6 pupils every Tuesday evening from 5-6.30 p.m. at Theatr Clwyd this term. To book a place, you are asked to contact the theatre on 01352 701521.

CELF A CHREFFT YR URDD *ARTS AND CRAFTS*

Fe'ch hatgoffir y bydd cystadlaethau Celf a Chrefft Cylch Yr Wyddgrug yn cael eu beirniadu yma yng Nglanrafon ar ddiwedd y dydd **ddydd Mercher nesaf, Ebrill 18fed.** Os oes gan unrhyw ddisgybl waith eto i ddod i mewn, mae'n hanfodol eu bod yn dod â nhw i'r ysgol erbyn bore Mercher yn ddi-ffael os gwelwch yn dda. Bydd y buddugwyr yn mynd ymlaen i'r Rhanbarth gyda'r beirniadu yn digwydd y pnawn canlynol.

You are reminded that the Mold District Urdd Arts and Crafts competitions are being judged here at Glanrafon ***next Wednesday, April 18th.*** *If any pupil still has work to come in, it is essential that these are brought to school by Wednesday morning without fail please. The prize winners will go forward to the Regional round and these will be judged the following day.*

MÂN DEGANAU AC OFFER – *SMALL TOYS AND ITEMS.*

Er mwyn osgoi unrhyw anghydfod a gofid i'r plant, gofynnir iddynt beidio dod â mân deganau ac offer efo nhw i'r ysgol. Mae'n hawdd iawn i'r eitemau hyn fynd ar goll a gall hyn greu cryn dristwch a gofid i'r disgyblion.

In order to avoid any upset for the children, it is advisable that they do not bring any small toys or items with them to school. These items can easily be mis laid and become lost which causes distress and upset for those pupils who bring them to school.

PROFION LLYTHRENNEDD A RHIFEDD – *LITERACY AND NUMERACY TESTS.*

Fe'ch hatgoffir y cynhelir y profion cenedlaethol hyn ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 2,3,4,5 a 6 o Fai 2il i'r 9fed. Byddwch yn derbyn copi o'r amserlen ar eu cyfer yn fuan.

You are reminded that the national tests will be held for Years 2,3,4,5 and 6 will be held from May 2nd to 9th. You will be receiving a copy of the timetable for these tests in the near future.

YMGYRCH READ TO FEED *APPEAL*

Diolch i bawb am eu cefnogaeth wych i'r ymgyrch hon. Gofynnir yn garedig i'r arian i gyd ddod i mewn erbyn dydd Gwener nesaf, Ebrill 20fed. fel y gallwn roi gwbodaeth am y swm terfynol i chi ac anfon yr arian ymlaen.

Many thanks to everyone for their tremendous support. You are kindly asked to send any outstanding money in by next Friday, April 20th. so that we can give you the final amount and send the money on.

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

16-20.04.18 Dathlu Wythnos Ewropeaidd – *European Week celebrations.*

18.04.18 Beirniadu cynnyrch Celf a Chrefft Cylch yr Urdd Yr Wyddgrug – *Judging of the Mold District Urdd Arts and Crafts competitions.*

19.04.18 P.C. Marc Jones yn cynnal ei sgwrs dymhorol gyda disgyblion Blynyddoedd 2 a 4 – *P.C. Marc Jones' termly address to Years 2 and 4 pupils.*

20.04.18 P.C. Marc Jones yn cynnal ei sgwrs dymhorol i ddisgyblion Blwyddyn 6 – *P.C. Marc Jones' termly address to Year 6 pupils.*

20.04.18 Diwrnod Gwisgo i fyny fel cynrychiolwyr o wahanol wledydd Ewropeaidd – *Pupils invited to dress up as representatives from European countries.*